# CYNLLUN MARCIO TAG SAFON UWCH

**HAF 2023**

**SAFON UWCH**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 5**
**1570N50-1**

© WJEC CBAC Ltd.

**RHAGARWEINIAD**

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr, a hynny gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

## TAG SAFON UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

## UNED 5: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH YMDDYGIAD OEDOLION

## CYNLLUN MARCIO HAF 2023

### Adran A

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | *Darllenwch yr astudiaeth achos am Gloria ac atebwch y cwestiynau isod.* | | | | |
| (a) | *Amlinellwch **dri** ffactor fyddai wedi gallu hybu gwydnwch Gloria.*<br><br>Rhowch **hyd at 2 farc** am bob ffactor gywir o'r astudiaeth achos allai fod wedi hybu gwydnwch Gloria.<br><br>Rhowch **1 marc** am amlinelliad sylfaenol yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â ffactorau allai fod wedi hybu gwydnwch Gloria.<br><br>Rhowch **2 farc** am amlinelliad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ynglŷn â ffactorau allai fod wedi hybu gwydnwch Gloria.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw **dri** o'r canlynol:<br>• mudo o Jamaica – gorfod addasu i fyw mewn gwlad a diwylliant newydd<br>• addysg – fe wnaeth Gloria weithio'n galed yn yr ysgol a chymhwyso fel nyrs<br>• modelau rôl – roedd rhieni Gloria yn fodelau rôl cadarnhaol iddi wrth iddi dyfu i fyny<br>• hiliaeth – roedd Gloria wedi dioddef hiliaeth ac roedd hyn wedi effeithio ar ei gwydnwch mewn ffordd gadarnhaol gan ei bod hi wedi gallu ymdopi â'r profiad<br>• crefydd – bydd hyn wedi dylanwadu ar sut roedd Gloria yn byw ei bywyd a'i gwerthoedd<br>• bydd gallu cymdeithasu a dathlu ei diwylliant/treftadaeth Affro-Caribïaidd wedi rhoi ymdeimlad o berthyn iddi a gallai ddarparu teimlad o gefnogaeth<br>• roedd bod yn rhan o'r côr a'r grŵp Affro-Caribïaidd yn rhoi'r cyfle iddi i wneud ffrindiau â phobl eraill o gefndir tebyg | 6<br>[2,2,2] | | | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • gan nad yw hi erioed wedi priodi, mae gorfod ymdopi â bywyd ar ei phen ei hun heb blant wedi cael effaith gadarnhaol ar ei gwydnwch<br>• symud i mewn i gartref gofal – helpu i wneud cysylltiadau cymdeithasol newydd a rhannu profiadau<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |
| (b) | *Disgrifiwch beth yw cam olaf damcaniaeth datblygiad seicogymdeithasol Erikson.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Yn ystod pob cam, mae'r unigolyn yn profi argyfwng seicogymdeithasol allai gael canlyniad cadarnhaol neu negyddol o ran datblygu personoliaeth.<br><br>Y cam olaf, sef Cyfanrwydd yr ego yn erbyn anobaith:<br>• mae'r cam hwn yn dechrau yn tua 65 oed ac yn diweddu ar adeg marwolaeth<br>• yn ystod y cyfnod hwn bydd unigolyn yn myfyrio ar yr hyn mae wedi'i gyflawni a gall ddatblygu cyfanrwydd os yw'n ystyried ei fod wedi byw bywyd llwyddiannus.<br>• Os yw unigolyn yn teimlo bod ei fywyd wedi bod yn anghynhyrchiol, yn teimlo'n euog am ei orffennol, neu'n teimlo nad yw wedi cyflawni nodau ei fywyd, bydd yn mynd yn anfodlon â bywyd ac yn datblygu anobaith, sy'n aml yn arwain at iselder<br>• Os yw unigolyn yn teimlo bod ei fywyd wedi bod yn gynhyrchiol a'i fod wedi cyflawni nodau ei fywyd, bydd yn teimlo'n hapus ac yn fodlon<br>• bydd doethineb yn galluogi unigolyn i edrych yn ôl ar ei fywyd â theimlad o ddiweddglo a chyfanrwydd a derbyn marwolaeth heb ofn<br><br>Roedd Erikson yn credu bod personoliaeth yn datblygu mewn trefn benodol drwy wyth cam o ddatblygiad seicogymdeithasol, o fabandod i oedolaeth.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 6 | | | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â damcaniaeth seicogymdeithasol Erikson<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cam datblygu Cyfanrwydd yr ego yn erbyn anobaith. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â damcaniaeth seicogymdeithasol Erikson<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r cam datblygu Cyfanrwydd yr ego yn erbyn anobaith. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â damcaniaeth seicogymdeithasol Erikson<br>• rhyw ddealltwriaeth o'r cam datblygu Cyfanrwydd yr ego yn erbyn anobaith. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Esboniwch sut byddai'r 'Cynllun Glöyn Byw' yn gallu helpu i ddarparu gofal a chymorth i Gloria.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae'r Cynllun Glöyn Byw yn darparu system o ofal i bobl sy'n byw â dementia neu bobl sy'n canfod nad yw eu cof mor ddibynadwy ag yr oedd yn arfer bod.<br><br>Bwriad y cynllun yw gwella diogelwch a llesiant unigolion drwy ddefnyddio ymagwedd gadarnhaol a phriodol at unigolion â dementia neu nam ar eu cof drwy ddefnyddio dulliau personol, gan gydnabod cefndir, bywyd gorffennol, credoau, cyflawniadau, a hoff bethau a chas bethau pob unigolyn.<br><br>Caiff symbol glöyn byw ei roi ar gynllun gofal/nodiadau'r unigolyn fel bod staff yn gwybod bod gan yr unigolyn ddementia neu nam ar y cof.<br><br>Bydd defnyddio'r Cynllun Glöyn Byw yn golygu:<br>• bod Gloria yn cael gofal wedi'i bersonoli<br>• y bydd staff gofal yn dangos ymagwedd gadarnhaol a rhagweithiol at ofal Gloria<br>• y bydd staff gofal yn cydnabod:<br>  ○ gwreiddiau Affro-Caribïaidd Gloria<br>  ○ ei hoff bethau a'i chas bethau e.e. canu, cerddoriaeth gospel<br>  ○ ei gyrfa nyrsio<br>• Bydd amgylchedd Gloria wedi'i drefnu mewn ffordd sy'n caniatáu iddi hi bersonoli ei lle, cael mynediad at eitemau allweddol a gweithredu cystal â phosibl mewn amgylchedd anghyfarwydd<br>• bydd staff gofal yn rhyngweithio â Gloria mewn ffordd sy'n caniatáu iddi hi wybod beth i'w ddisgwyl yn ei gofal ac mewn ffordd sy'n tawelu ei meddwl ac sydd ddim yn ei gwneud hi'n bryderus<br>• bydd staff gofal yn deall yr anawsterau gallai Gloria eu cael i gyfleu ei hanghenion a'i dymuniadau.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | 8 | | 8 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
| --- | --- |
| **4** | **7-8 marc**<br>Esboniad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â chymhwyso'r Cynllun Glöyn Byw yn ymarferol<br>• dealltwriaeth hyderus o sut byddai'r Cynllun Glöyn Byw yn gallu helpu i ddarparu gofal a chefnogaeth i Gloria. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â chymhwyso'r Cynllun Glöyn Byw yn ymarferol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut byddai'r Cynllun Glöyn Byw yn gallu helpu i ddarparu gofal a chefnogaeth i Gloria. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chymhwyso'r Cynllun Glöyn Byw yn ymarferol<br>• rhyw ddealltwriaeth o sut byddai'r Cynllun Glöyn Byw yn gallu helpu i ddarparu gofal a chefnogaeth i Gloria. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o wybodaeth na dealltwriaeth ynglŷn â chymhwyso'r Cynllun Glöyn Byw yn ymarferol<br>• dim llawer o ddealltwriaeth o sut byddai'r Cynllun Glöyn Byw yn gallu helpu i ddarparu gofal a chefnogaeth i Gloria. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2. | *Mae nith Gloria, Rita, yn teimlo dan straen wrth geisio cydbwyso ei hymrwymiadau (commitments). Mae hi'n ymweld â'i meddyg teulu ac yn cael ei hatgyfeirio at gwnselydd sy'n defnyddio'r dull gwybyddol. Mae'r cwnselydd yn awgrymu bod Rita yn rhoi cynnig ar ioga neu fyfyrdod (meditation) er mwyn helpu i reoli ei straen.* | | | | |
| (a) | *Disgrifiwch sut byddai ioga* ***neu*** *fyfyrdod yn gallu helpu Rita i reoli ei straen.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Bydd ymarfer ioga neu fyfyrdod yn rheolaidd yn gwella iechyd a llesiant Rita. Mae hyn yn cynyddu ei gwydnwch gan wella ei gallu i reoli straen.<br><br>Byddai ioga yn gallu helpu Rita i leihau straen oherwydd:<br>• mae'n hybu ymlacio, sef y gwrthwyneb naturiol i straen<br>• mae'n gwneud i'w chorff ymlacio<br>• mae'n tawelu ei meddwl<br>• mae'n ffocysu ei hanadlu<br>• mae'n gostwng cyfradd curiad ei chalon<br>• mae'n gostwng ei phwysedd gwaed<br>• mae'n darparu ymarfer corff sy'n rhyddhau endorffinau sy'n gallu gwella ei hwyliau<br>• cymryd amser iddi hi ei hun<br><br>Bydd myfyrdod yn gallu helpu Rita i gynhyrchu cyflwr o ymlacio dwfn a meddwl tawel. Mae'n gallu:<br>• ffocysu ei sylw<br>• dileu meddyliau negyddol - atal y llif o feddyliau cymysg allai fod yn gorlenwi'r meddwl ac yn achosi straen<br>• gwella ei llesiant corfforol ac emosiynol<br>• ei hybu hi i ymlacio<br>• rheoli ei phryder<br>• gwella ei hunanymwybyddiaeth<br>• cymryd amser iddi hi ei hun<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 6 | | | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â sut byddai ioga neu fyfyrdod yn gallu helpu Rita i reoli ei straen<br>• dealltwriaeth hyderus o sut gall Rita ddefnyddio ioga neu fyfyrdod i reoli ei straen. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â sut byddai ioga neu fyfyrdod yn gallu helpu Rita i reoli ei straen<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gall Rita ddefnyddio ioga neu fyfyrdod i reoli ei straen. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut byddai ioga neu fyfyrdod yn gallu helpu Rita i reoli ei straen<br>• rhyw ddealltwriaeth o sut gall unigolyn ddefnyddio ioga neu fyfyrdod i reoli ei straen. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Dadansoddwch sut byddai'r dull gwybyddol yn gallu helpu Rita i reoli ei theimladau.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mae'r dull hwn yn cynnwys addysgu Rita i herio a thrin ei meddyliau a'i theimladau ei hun<br>• bydd yn ei helpu hi i ddeall y prosesau sy'n digwydd yn ei meddwl ei hun<br>• y nod fyddai i Rita allu canfod a rheoli ei 'hunansiarad' ei hun h.y. y meddyliau yn ei phen ei hun am ei straen<br>• os gall Rita ddysgu rheoli ei meddwl ei hun, gall hynny arwain at feddyliau cadarnhaol am ymdopi â'r hyn sy'n achosi ei straen<br>• mae'r dull gwybyddol yn dadlau nad beth sy'n digwydd i unigolion sy'n eu gwneud nhw'n hapus, yn bryderus, ac yn isel ond y ffordd maen nhw'n meddwl am ddigwyddiadau eu bywyd<br>• mae rhai unigolion yn meddwl bod yr hyn sy'n digwydd y tu mewn i'w pennau'n gynrychioliad cywir o realiti<br>• efallai y bydd gan rai unigolion gred gamweithredol bod unrhyw feddyliau maen nhw'n eu cael yn gynrychioliad cywir o realiti.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | 6 | 6 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r dull gwybyddol<br>• dealltwriaeth hyderus o sut byddai'r dull gwybyddol yn gallu helpu Rita i reoli ei theimladau. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â'r dull gwybyddol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut byddai'r dull gwybyddol yn gallu helpu Rita i reoli ei theimladau. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos y canlynol:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r dull gwybyddol<br>• rhyw ddealltwriaeth o sut byddai'r dull gwybyddol yn gallu helpu Rita i reoli ei theimladau. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Cyferbynnwch (contrast) y dull gwybyddol a'r dull seicodynamig ar gyfer cwnsela.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Y prif wahaniaeth rhwng y dulliau seicodynamig a gwybyddol yw'r ffordd mae'r ddau ddull yn ystyried canfod yr hyn sy'n achosi salwch meddwl neu ymddygiad camaddas:<br>• mae'r dull seicodynamig yn canolbwyntio ar brosesau anymwybodol / mae'r dull gwybyddol yn canolbwyntio ar brosesau meddyliol<br>• mae'r dull seicodynamig yn awgrymu nad yw ymddygiad yn cael ei ddysgu, ond ei fod yn cael ei achosi gan rymoedd yn yr anymwybod / mae'r dull gwybyddol yn awgrymu bod ymddygiad yn cael ei ddysgu wrth i ni brosesu gwybodaeth a newidiadau meddyliol mewn ffyrdd pwysig dros amser<br>• mae'r dull seicodynamig yn awgrymu bod ymddygiad wedi'i bennu ymlaen llaw/mae'r dull gwybyddol yn awgrymu nad yw ymddygiad wedi'i bennu ymlaen llaw a'i fod yn cael ei ddysgu wrth i ni brosesu gwybodaeth a newidiadau meddyliol mewn ffyrdd pwysig dros amser<br>• mae'r dull seicodynamig yn awgrymu bod gwahanol rannau o'r meddwl mewn brwydr ddynamig gyson â'i gilydd, ac felly nad oes gan unigolion ddim rheolaeth dros eu hymddygiad/mae'r dull gwybyddol yn awgrymu bod gan unigolion y pŵer i newid eu gwybyddiaeth unrhyw bryd<br>• mae'r dull seicodynamig yn canolbwyntio ar ymddygiad yn ystod plentyndod cynnar/ dydy'r dull gwybyddol ddim yn canolbwyntio ar ymddygiad yn ystod plentyndod cynnar<br>• mae'r dull seicodynamig yn cael ei ystyried yn anwyddonol oherwydd allwn ni ddim ei fesur na'i drin/mae'r dull gwybyddol yn cael ei ystyried yn wyddonol gan ei fod yn ystyried yr ymennydd fel cyfrifiadur sy'n gallu trin gwybodaeth.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | 8 | 8 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Ymateb rhagorol sy'n dangos:<br>• llunio barn graff a gwybodus am y gwahaniaethau rhwng y dulliau gwybyddol a seicodynamig<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl â'r dull gwybyddol a hefyd y dull seicodynamig. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos:<br>• llunio barn resymegol am y gwahaniaethau rhwng y dulliau gwybyddol a seicodynamig<br>• ymdriniaeth drylwyr â'r dull gwybyddol a hefyd y dull seicodynamig. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos:<br>• llunio barn ddilys ar y cyfan am y gwahaniaethau rhwng y dulliau gwybyddol a seicodynamig<br>• ymdriniaeth syml â'r dull gwybyddol a hefyd y dull seicodynamig. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o farn am y gwahaniaethau rhwng y dulliau gwybyddol a seicodynamig<br>• dim llawer o ymdriniaeth â'r dull gwybyddol na'r dull seicodynamig. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

## Adran B

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Ateb</th><th>AA1</th><th>AA2</th><th>AA3</th><th>Cyfanswm marciau</th></tr>
<tr><td>3.<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>(a)</td><td>Mae gan Rebecca anawsterau dysgu ac mae hi wedi bod yn byw mewn llety â chymorth (supported accommodation) am y 2 flynedd ddiwethaf. Roedd Rebecca a Sally wedi dod yn ffrindiau agos, ac roedden nhw’n mwynhau gwneud llawer o weithgareddau gyda’i gilydd. Symudodd Sally i lety gwahanol 6 mis yn ôl. Ers hynny, mae ymddygiad Rebecca wedi dirywio (deteriorated).<br><br>Amlinellwch ddau ffactor fyddai wedi gallu achosi i ymddygiad Rebecca ddirywio yn ddiweddar.<br><br>Rhowch hyd at 2 farc am bob ffactor gywir fyddai wedi gallu achosi i ymddygiad Rebecca ddirywio.<br><br>Rhowch 1 marc am amlinelliad sylfaenol yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffactorau fyddai wedi gallu achosi i ymddygiad Rebecca ddirywio.<br><br>Rhowch 2 farc am amlinelliad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ynglŷn â'r ffactorau fyddai wedi gallu achosi i ymddygiad Rebecca ddirywio.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw ddau o'r canlynol:<br>• mae gan Rebecca anawsterau dysgu fyddai'n gallu effeithio ar ei gallu i gyfleu ei theimladau'n effeithiol<br>• mae'n bosibl y bydd Rebecca yn teimlo'n drist gan ei bod hi'n colli ei ffrind Sally<br>• mae'n bosibl nad yw Rebecca yn cymdeithasu â phobl eraill<br>• gallai hi fod yn teimlo'n ynysig<br>• gallai hi fod yn teimlo'n unig heb Sally<br>• mae'n bosibl nad yw hi'n cymryd rhan yn y gweithgareddau byddai hi wedi cymryd rhan ynddyn nhw gyda Sally gan nad ydy hi eisiau mynd ar ei phen ei hun<br>• gallai diffyg trefn arferol achosi i Rebecca deimlo'n ansefydlog<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.</td><td><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>4<br>[2,2]</td><td></td><td></td><td><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>4</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Mae'r rheolwr wedi cael cwynion gan bobl eraill sy'n byw yn y cartref bod Rebecca wedi troi'n ymosodol (aggressive), a'i bod hi hefyd yn chwarae cerddoriaeth uchel yn hwyr yn y nos sy'n effeithio ar eu cwsg (sleep).*<br><br>*Esboniwch sut byddai defnyddio 'Dull Adferol (Restorative Approach)' yn gallu helpu'r rheolwr i ddatrys y sefyllfa rhwng Rebecca a'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae Dull Adferol yn ffordd o weithio i ddatrys gwrthdaro rhyngbersonol. Byddai defnyddio Dull Adferol yn gallu helpu i ddatrys y sefyllfa rhwng Rebecca a'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref drwy:<br>• unioni unrhyw niwed sydd wedi'i wneud<br>• rhoi cyfle i'r ddwy ochr i adrodd eu hochr nhw o'r stori/eu profiad<br>• mae'n cynnwys pob parti dan sylw - yn galluogi'r preswylwyr eraill a hefyd Rebecca i fynegi eu meddyliau a'u teimladau<br>• helpu Rebecca i ddeall yn well sut digwyddodd y sefyllfa a sut i'w hatal hi rhag digwydd eto<br>• ffurfio, cynnal a gwella perthnasoedd, gan helpu Rebecca i ddeall sut mae'r preswylwyr yn teimlo ac i'r gwrthwyneb<br>• helpu preswylwyr i ddeall pam mae Rebecca yn ymddwyn fel hyn<br>• meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol ac atebolrwydd ar y cyd, i alluogi'r preswylwyr a hefyd Rebecca i ddod o hyd i ffordd o symud ymlaen.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | 6 | | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â Dull Adferol<br>• dealltwriaeth hyderus o sut byddai defnyddio Dull Adferol yn gallu helpu i ddatrys y sefyllfa rhwng Rebecca a'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â Dull Adferol<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut byddai defnyddio Dull Adferol yn gallu helpu i ddatrys y sefyllfa rhwng Rebecca a'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â Dull Adferol<br>• rhyw ddealltwriaeth o sut byddai defnyddio Dull Adferol yn gallu helpu i ddatrys y sefyllfa rhwng Rebecca a'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Dadansoddwch beth yw effaith defnyddio dull sy’n seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog wrth ddelio ag ymddygiad heriol.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Egwyddorion gofal person-ganolog:<br>• dod i adnabod unigolyn<br>• parchu a gwerthfawrogi ei hanes a'i gefndir<br>• deall ei hoff bethau a'i gas bethau<br>• deall ei sgiliau a'i allu<br>• deall ei hoff ddulliau cyfathrebu<br>• deall ei strwythurau cefnogi<br>• gwerthfawrogi effaith yr amgylchedd arno<br>• canfod sut i ddarparu ffyrdd o gefnogi unigolyn yn gyson ym mhob agwedd ar y gofal mae'n ei gael<br>• datblygu a monitro cynlluniau sy'n amlinellu anghenion unigolyn, y canlyniadau llesiant a ddymunir a'r ffyrdd y gellir ei gefnogi i gyflawni'r rhain.<br><br>Drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar yr egwyddorion hyn wrth ymdrin ag ymddygiad heriol:<br>• bydd gan unigolyn well ansawdd bywyd a bydd llai o angen iddo ymddwyn yn heriol<br>• bydd gofalwyr yn deall y rhesymau pam mae unigolion yn dangos ymddygiad heriol ac yn gallu osgoi'r rhesymau hyn i gefnogi ymddygiad mwy cadarnhaol<br>• bydd yn haws i ofalwyr adnabod yr arwyddion/sbardunau sy'n arwain unigolyn i ddangos ymddygiad heriol, gan roi cyfle i ofalwyr ymyrryd cyn i'r ymddygiad waethygu<br>• gall helpu i atal yr angen i unigolyn ddangos ymddygiad heriol<br>• bydd unigolyn ag ymddygiad heriol yn gallu byw bywyd 'cyffredin', a chael dewis a rheolaeth dros yr hyn mae'n ei wneud, ble, pryd a gyda phwy.<br><br>Gellir cyfeirio at ddull penodol wedi'i enwi, neu gellir rhoi ateb generig.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | 8 | 8 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad rhagorol sy'n dangos:<br>• llunio barn graff a gwybodus am effaith defnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog wrth ymdrin ag ymddygiad heriol<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl ag egwyddorion gofal person-ganolog. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da iawn sy'n dangos:<br>• llunio barn resymegol am effaith defnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog wrth ymdrin ag ymddygiad heriol<br>• ymdriniaeth drylwyr ag egwyddorion gofal person-ganolog. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• llunio barn ddilys ar y cyfan am effaith defnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog wrth ymdrin ag ymddygiad heriol<br>• ymdriniaeth syml ag egwyddorion gofal person-ganolog. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o farn am effaith defnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog wrth ymdrin ag ymddygiad heriol<br>• dim llawer o ymdriniaeth ag egwyddorion gofal person-ganolog. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>(a) | *Mae Ahmed yn 61 oed. Mae ganddo bwysedd gwaed uchel a diabetes. Mae meddyg teulu Ahmed wedi dweud y dylai Ahmed stopio ysmygu er mwyn gwella ei ddisgwyliad oes (life expectancy). Mae Ahmed yn dweud ei fod wedi dechrau ysmygu pan oedd yn blentyn yn ei arddegau (teenager) gan ei fod yn ffasiynol bryd hynny. Mae Ahmed yn teimlo bod ysmygu yn ei helpu i ymdopi â gorbryder (anxiety) ac mae'n dweud bod ei dad wedi ysmygu'n drwm ac wedi byw nes ei fod yn hen iawn.*<br><br>*Amlinellwch **ddau** ffactor fyddai wedi gallu dylanwadu ar benderfyniad Ahmed i ysmygu.*<br><br>Rhowch **hyd at 2 farc** am bob ffactor gywir fyddai wedi gallu dylanwadu ar benderfyniad Ahmed i ysmygu.<br><br>Rhowch **1 marc** am amlinelliad sylfaenol yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffactor fyddai wedi gallu dylanwadu ar benderfyniad Ahmed i ysmygu.<br><br>Rhowch **2 farc** am amlinelliad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ynglŷn â'r ffactor fyddai wedi gallu dylanwadu ar benderfyniad Ahmed i ysmygu.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw **ddau** o'r canlynol:<br>• roedd ysmygu'n cael ei ystyried yn ffasiynol pan oedd Ahmed yn ei arddegau – roedd ysmygu i'w weld yn aml yn y cyfryngau ac roedd yn cael ei hysbysebu'n fwy amlwg yn y gorffennol<br>• gallai Ahmed fod wedi dechrau ysmygu i gael ei dderbyn gan ei grŵp cyfoedion<br>• roedd llai o ymwybyddiaeth o risg ysmygu i iechyd<br>• mae ysmygu'n helpu Ahmed i ymdopi â'i orbryder<br>• roedd tad Ahmed yn ysmygu'n drwm felly roedd Ahmed wedi dechrau ysmygu i gopïo ei dad, sy'n fodel rôl iddo | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>4<br>[2,2] | | | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>4 |

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • dydy Ahmed ddim yn ystyried bod ysmygu'n niweidiol i'w iechyd gan fod ei dad wedi ysmygu'n drwm ac wedi byw nes ei fod yn hen iawn.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |
| (b) | *Mae'r meddyg teulu yn rhoi taflen 'Helpa Fi i Stopio' i Ahmed. Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau hunan-gymorth (self-help groups) yn ei ardal.*<br><br>*Disgrifiwch sut mae grŵp hunangymorth yn gallu cefnogi unigolyn i stopio ysmygu.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Grwpiau anffurfiol o bobl yw grwpiau hunangymorth sy'n dod at ei gilydd i ymdrin â'u problemau cyffredin drwy gefnogi ei gilydd.<br><br>Gall grŵp hunangymorth gefnogi unigolyn i roi'r gorau i ysmygu drwy:<br>• ei alluogi i siarad yn agored ac yn onest â phobl eraill sydd mewn sefyllfa debyg<br>• gallu dysgu gan bobl eraill sut i ymdrin â chwantau<br>• gallu dysgu gan bobl eraill sut i adnabod ffactorau/sefyllfaoedd sbarduno<br>• gallu dysgu gan bobl eraill sut i ymdopi â sefyllfaoedd sbarduno<br>• ei helpu i gadw cymhelliant<br>• dysgu am dechnegau ymlacio i helpu â chwantau<br>• wrth fod gyda phobl eraill yn yr un sefyllfa, fydd unigolyn ddim yn teimlo bod pobl yn ei farnu gymaint<br>• mae ymchwil wedi dangos bod rhoi'r cyfle i ysmygwyr i rannu'r anawsterau sy'n eu hwynebu nhw mewn sefyllfa grŵp wrth geisio rhoi'r gorau iddi yn gallu helpu eu siawns o lwyddo<br>• cynyddu hunan-ymwybyddiaeth.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | 6 | | | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â sut gall grŵp hunangymorth gefnogi unigolion<br>• dealltwriaeth hyderus o sut gall ymuno â grŵp hunangymorth gefnogi unigolyn i roi'r gorau i ysmygu. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â sut gall grŵp hunangymorth gefnogi unigolion<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut gall ymuno â grŵp hunangymorth gefnogi unigolyn i roi'r gorau i ysmygu. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut gall grŵp hunangymorth gefnogi unigolion<br>• rhyw ddealltwriaeth o sut gall ymuno â grŵp hunangymorth gefnogi unigolyn i roi'r gorau i ysmygu. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Esboniwch, gan ddefnyddio damcaniaeth ymddygiad, sut mae profiadau yn ystod plentyndod cynnar yn gallu dylanwadu ar ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae damcaniaeth ymddygiad yn canolbwyntio ar sut mae unigolion yn dysgu o brofiad ac yn ceisio deall unigolion yn y ffyrdd mae eu profiadau'n siapio eu hymddygiad.<br><br>Mae damcaniaeth ymddygiad yn tybio bod ymddygiad:<br>• yn cael ei ddysgu'n ifanc<br>• yn cael ei ddysgu drwy arsylwi ar bobl eraill a'u copïo nhw<br>• os caiff ei atgyfnerthu mewn modd cadarnhaol gan yr amgylchedd cymdeithasol mae'r unigolyn ynddo, bydd yr ymddygiad yn parhau<br>• os caiff ei ystyried mewn modd negyddol gan yr amgylchedd cymdeithasol mae'r unigolyn ynddo, bydd yr ymddygiad yn stopio<br>• hyd yn oed os yw'n negyddol, bydd yn parhau os mai dyna'r unig ffordd o gael sylw<br>• bydd yn parhau os yw'n arwain at ganlyniad pleserus<br>• caiff ei ailadrodd os oedd wedi teimlo'n dda o'r blaen neu os yw wedi'i gysylltu â theimlo'n well.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | 6 | | 6 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â damcaniaeth ymddygiad<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae profiadau plentyndod cynnar yn gallu dylanwadu ar ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â damcaniaeth ymddygiad<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut mae profiadau plentyndod cynnar yn gallu dylanwadu ar ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â damcaniaeth ymddygiad<br>• rhyw ddealltwriaeth o sut mae profiadau plentyndod cynnar yn gallu dylanwadu ar ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (ch) | *Mae gwydnwch yn gallu cefnogi unigolion i ymdopi â heriau (challenges).*<br><br>*Dadansoddwch sut byddai datblygu gwydnwch yn gallu helpu Ahmed i stopio ysmygu.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Bydd datblygu gwydnwch yn Ahmed i wneud y canlynol:<br>• gallu addasu ac ymdopi â'r her o stopio ysmygu<br>• gallu dibynnu ar ei adnoddau mewnol ei hun<br>• gallu gwrthsefyll straen sy'n cael ei hachosi gan y broses o stopio ysmygu<br>• datblygu hunangysyniad cadarnhaol fydd yn ei helpu i feddwl y gall gyflawni ei nod (hybu ei hunanddelwedd/hunan-barch)<br>• gallu ymdopi ag anffodion a pheidio â rhoi'r gorau i geisio.<br><br>Os na fydd Ahmed yn datblygu gwydnwch, gallai hynny:<br>• achosi iddo deimlo dan straen<br>• gwneud iddo fethu ag ymdopi<br>• gwneud iddo brofi iselder<br>• gwneud iddo ddatblygu hunangysyniad negyddol fydd yn gwneud iddo feddwl na all gyflawni ei nod<br>• gwneud iddo fethu ymdopi ag anffodion a bydd yn rhoi'r gorau i geisio<br>• gwneud iddo fethu â herio ei gaethiwed<br>• gwneud iddo fethu â herio pwysau gan gyfoedion<br><br>Mae gwydnwch yn golygu gwybod sut i ymdopi er gwaethaf anawsterau neu rwystrau neu adnoddau prin.<br><br>Mae gwydnwch yn mesur faint mae unigolyn am gael rhywbeth ac i ba raddau y mae'n barod i oresgyn rhwystrau i'w gael, neu'n gallu goresgyn rhwystrau. Mae'n ffordd o fesur cryfder emosiynol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | 8 | 8 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad rhagorol sy'n dangos:<br>• llunio barn graff a gwybodus am sut gallai datblygu gwydnwch helpu Ahmed i stopio ysmygu<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl â phwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch. |
| 3 | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da iawn sy'n dangos:<br>• llunio barn resymegol am sut gallai datblygu gwydnwch helpu Ahmed i stopio ysmygu<br>• ymdriniaeth drylwyr â phwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• llunio barn ddilys ar y cyfan am sut gallai datblygu gwydnwch helpu Ahmed i stopio ysmygu<br>• ymdriniaeth syml â phwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o farn am sut gallai datblygu gwydnwch helpu Ahmed i stopio ysmygu<br>• ychydig iawn o ymdriniaeth â phwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. | *Mae Rhys newydd ddechrau yn y brifysgol ac mae’n poeni ei fod wedi dewis y cwrs anghywir. Mae’n teimlo’n bryderus (anxious) am ddweud wrth ei rieni gan eu bod nhw’n falch iawn o’r hyn mae wedi’i gyflawni ac mae’n ofni eu siomi nhw. Mae’r brifysgol yn cynnig gwasanaeth cwnsela ac mae Rhys wedi gwneud apwyntiad i siarad â chwnselydd sy’n defnyddio’r dull dyneiddiol (humanistic approach).*<br><br>*Disgrifiwch beth yw nodweddion allweddol y dull dyneiddiol, ac aseswch sut mae’r dull hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol.*<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Nodweddion allweddol y dull dyneiddiol:<br>• cyfannol a pherson-ganolog<br>• yn canolbwyntio ar sut mae unigolyn yn gweld ei ymddygiad ei hun<br>• yn canolbwyntio ar sut mae unigolyn yn gweld ac yn dehongli digwyddiadau<br>• mae gan bob unigolyn ei brofiad ei hun o fywyd<br>• mae'n canolbwyntio ar farn unigolyn amdano ei hun a phwy hoffai fod<br>• dydy unigolion ddim yn cael eu gweld fel mecanweithiau sy'n gallu cael eu categoreiddio, eu dadansoddi, a'u haddasu<br>• does dim arbenigwyr sy'n gallu rhoi diagnosis o beth sy'n bod ag unigolyn<br>• mae pob unigolyn yn arbenigwr arno ei hun ac nid ar neb arall<br>• pwysleisio pwysigrwydd parchu gwerth pob unigolyn<br>• mae'r berthynas rhwng y cwnselydd a'r cleient yn:<br>  ○ annog y cleient<br>  ○ empathig<br>  ○ un heb farnu<br>  ○ cyson/diffuant.<br><br>Cafodd y dull dyneiddiol ei gyflwyno gan Carl Rogers ac Abraham Maslow yn yr 1950au. Mae'r dull yn tybio mai twf personol a boddhad yw'r prif nodau mewn bywyd, a bod hyn yn arwain at lesiant emosiynol a meddyliol. | 8 | | 10 | 18 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cryfderau'r dull dyneiddiol<br>• helpu'r unigolyn i siarad am bob mater sy'n effeithio arno<br>• ni fydd yn barnu ymddygiad unigolyn<br>• helpu unigolyn i ganfod y rhesymau dros ei ymddygiad<br>• helpu unigolyn i ganfod ffactorau sy'n gallu sbarduno ei ymddygiad<br>• awgrymu ffyrdd newydd ac effeithiol i unigolyn ymdopi<br>• credu y bydd yr unigolyn yn gwneud y dewis cadarnhaol bob amser<br><br>Gwendidau'r dull dyneiddiol<br>• does gan unigolion ddim ewyllys rydd a dewis rhydd dros eu sefyllfa bob amser<br>• mae'n anwybyddu ffactorau sydd y tu allan i ymwybyddiaeth ymwybodol allai gyfrannu at greu ymddygiad heriol<br>• nid yw'n llawer o gymorth i unigolion â phroblemau cymhleth<br>• mae'n gallu cymryd llawer o amser ac nid yw'n gwella pethau'n gyflym bob amser<br>• nid yw'n rhoi esboniadau na thriniaethau, a gallai hyn achosi rhwystredigaeth i rai unigolion.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Disgrifiad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r dull dyneiddiol<br>• dealltwriaeth hyderus o nodweddion allweddol perthnasol | **9-10 marc**<br>Asesiad rhagorol sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o ddefnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl â'r dull dyneiddiol<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â'r dull dyneiddiol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o nodweddion allweddol perthnasol. | **6-8 marc**<br>Asesiad da iawn sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o ddefnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol<br>• ymdriniaeth drylwyr â'r dull dyneiddiol<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r dull dyneiddiol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o nodweddion allweddol. | **3-5 marc**<br>Asesiad da sy'n dangos:<br>• llunio barn ddilys ar y cyfan am ddefnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol<br>• ymdriniaeth syml â'r dull dyneiddiol<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r dull dyneiddiol<br>• dealltwriaeth brin o nodweddion allweddol. | **1-2 farc**<br>Asesiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o farn am ddefnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol<br>• dim llawer o ymdriniaeth â'r dull dyneiddiol<br><br>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | 2.5.1 | 2.5.2 | 2.5.3 | | | | | |
| **1.** | (a) | 6 | | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | | 8 | (a) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| **2.** | (a) | | 6 | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | (a) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| | (c) | | 8 | | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| Adran A | | 6 | 26 | 8 | | **40** | **18** | **8** | **14** |
| **3.** | (a) | 4 | | | (a) | **4** | 4 | 0 | 0 |
| | (b) | | | 6 | (a) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (c) | | | 8 | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **4.** | (a) | 4 | | | (a) | **4** | 4 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | 6 | | (a) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (ch) | 8 | | | (b) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **5.** | | | 8 | 10 | (a) | **18** | 8 | 0 | 10 |
| Adran B | | 16 | 20 | 24 | | **60** | **22** | **12** | **26** |
| Cyfanswm marciau | | **22** | **46** | **32** | | **100** | **40** | **20** | **40** |



© WJEC CBAC Ltd.